# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2018-2019

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **08 Mai 2019.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes diben arall iddo. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Lesley Walton | **Adran Etholiadol:** | Townhill |
|---|---|---|---|

| **Swydd Cyflog Uwch:** | |
|---|---|

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Mae fy mhrofiad gwaith blaenorol fel athrawes, ymgynghorydd yn Cyngor ar Bopeth, a swyddog tai i gyd wedi fy helpu i ymdrin â gwaith achos preswylwyr yn effeithiol a chyda sensitifrwydd. Yn yr etholaeth:

1) Rwyf wedi parhau i ymdrin â phroblemau gwaith achos, cysylltu â swyddogion y cyngor etc. ac rwyf bob amser yn cysylltu â'r etholwr i ddweud wrtho am y canlyniad.
2) Rwyf wedi cynnal fy nghymorthfeydd misol rheolaidd yng Nghanolfan y Ffenics, ac rwyf hefyd yn cymryd lle fy nghydweithwyr yn ôl y galw mewn lleoliadau eraill yn y ward.
3) Rwyf i â'm cydweithwyr yn y ward wedi bod yn gweithio'n galed i fynd i'r afael â nifer o faterion ward:
   - diogelwch plant sy'n chwarae ar gylchfan Canolfan y Ffenics
   - yr angen am fesurau arafu traffig ar Heol Townhill
   - goryrru ar Stryd Meadow
   - parcio o gwmpas Ysgol Seaview
   - arian cyfatebol gyda'n cyllideb gymunedol i ddarparu cyfleusterau chwarae ym Mharc Mayhill
   - cwadfeiciau'n difrodi meysydd chwarae'r Gors
   - tipio anghyfreithlon i lawr y ceunant o gylchfan Y Forwyn Fair o Lourdes

Byddwn yn parhau i wneud hynny nes dod o hyd i atebion addas.

4) Hefyd gyda'm cydweithwyr, dros y flwyddyn ddiwethaf rwyf wedi cefnogi Diwrnod Hwyl blynyddol y Ffenics, ymchwilio i ddarparu llwybrau beicio ar draws y ward gan ddefnyddio cronfa Teithio Llesol LIC, a chytuno ar dri lleoliad yn y ward ar gyfer blodau gwyllt.
5) Yn ogystal â chyfarfodydd pwyllgor y cyngor, rwyf hefyd yn mynychu:
   - cyfarfodydd a digwyddiadau eraill fel Llywodraethwr yr ALl yn Ysgol Gymunedol Dylan Thomas. Rwyf hefyd yn darparu cyngor a chefnogaeth, gan weithredu fel cyswllt rhwng yr ysgol a'r awdurdod lleol.
   - cyfarfodydd bwrdd The Hill Community Development Trust, yng Nghanolfan y Ffenics, ac yn parhau i roi cefnogaeth benodol i farchnata'r gwasanaethau y mae'r ganolfan yn eu darparu ac anfon gwybodaeth rwy'n ei derbyn fel cynghorydd ymlaen iddynt, megis cyfleoedd swyddi a diweddariadau i'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau.
   - cyfarfodydd y Grŵp Llywio Cynhwysiad Ariannol, sy'n ategu'r gwaith rwyf wedi bod yn ymwneud ag ef ar y Pwyllgor Datblygu Polisi Tlodi, yn arbennig wrth alluogi Abertawe i sefydlu Comisiwn Gwirionedd Tlodi

Gweler hefyd y blog lesleywaltoncouncillor@blogspot.com

**Rhan 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2018-2019

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol gan yr adran etholiadol.

Gallwch weld presenoldeb y cynghorydd yma.

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Gallwch weld presenoldeb y cynghorydd yma.
Gallwch weld penodiadau'r cynghorydd i gyrff allanol yma.

Fel Dirprwy Chwip rwyf wedi rhoi cymorth a chefnogaeth i'm cyd-gynghorwyr Llafur fel y gallant gyflawni eu rôl yn effeithiol, e.e. ar brotocol e-byst y cyngor, a'r defnydd mwyaf priodol o gyfryngau cymdeithasol.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

1) Fel aelod sefydlu Cyfeillion Llyn Golchi Mayhill rwyf wedi parhau i ofalu am yr ardal bicnic a'r ardal laswellt o'i chwmpas. Ynghyd â phreswylwyr lleol, rydym wedi codi sbwriel yn rheolaidd a chlirio gwastraff a dipiwyd yn anghyfreithlon er mwyn ceisio dileu’r arfer o adael sachau sbwriel du yno.
2) Yn y flwyddyn ddiwethaf, rwyf hefyd wedi cefnogi Cyfeillion Cae Ganges, gan fynd am dro anffurfiol yno i gwrdd â phobl, mynd i ddigwyddiad cymdeithasol a'u Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.
3) Rwyf hefyd yn un o aelodau sefydlu'r grŵp STOPP a ffurfiwyd yn ddiweddar er mwyn mynd i'r afael â thodli mislif, yn enwedig atebion ymarferol.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Gallwch weld hyfforddiant cynghorwyr yma.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

1) Rwy'n aelod o Undebau Credyd Bae Abertawe ac yn eu cefnogi er mwyn eu hyrwyddo fel dewis amgen llawer gwell i'r holl fenthycwyr arian cyfreithiol ac anghyfreithiol
2) Rwy'n cefnogi Banc Bwyd Eastside drwy roi rhodd ariannol fisol a rheolaidd iddynt, a rhoddion bwyd untro mewn argyfwng, ac yn annog cynghorwyr eraill i wneud yr un peth.
3) Rwy'n canu gyda'r côr cymunedol Voices on the Hill sydd wedi rhoi sawl perfformiad megis digwyddiadau yn Eglwys St Nicholas a diwrnod hwyl Canolfan y Ffenics

**Rhan 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Basic Salary - Cyflog Sylfaenol: £13,600

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma.
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 17/06/2019 |